

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A487  
(East Street, Bridge Street a West  
Street, Trefdraeth, Sir Benfro)  
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)  
2019

The A487 Trunk Road (East Street,  
Bridge Street & West Street,  
Newport, Pembrokeshire)  
(Temporary Prohibition of  
Vehicles) Order 2019

*Gwnaed* 13 Mai 2019

*Made* 13 May 2019

*Yn dod i rym* 19 Mai 2019

*Coming into force* 19 May 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (East Street, Bridge Street a West Street, Trefdraeth, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 19 Mai 2019.

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (East Street, Bridge Street & West Street, Newport, Pembrokeshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2019 and it comes into force on 19 May 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 07:00 o'r gloch ar 19 Mai 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A487 Fishguard to Bangor Trunk Road;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor.

### **Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd o'r enw East Street, Bridge Street a West Street yn Nhrefdraeth, Sir Benfro sy'n ymestyn o bwynt 185 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r U3447 (o'r enw Feidr Bentick) hyd at bwynt 1.11 o gilometrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

### **Cymhwyso**

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn ei dangos.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

13 Mai 2019

*Richard Morgan*  
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means that period commencing at 07:00 hours on 19 May 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

### **Prohibition**

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road known as East Street, Bridge Street and West Street at Newport, Pembrokeshire that extends from a point 185 metres east of the centre-point of its junction with the U3447 (known as Feidr Bentick) to a point 1.11 kilometres west of that junction.

### **Application**

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### **Duration of this Order**

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

13 May 2019

*Richard Morgan*  
Head of Planning, Asset Management & Standards  
Welsh Government

**CEFNFFORDD YR A487 (EAST STREET,  
BRIDGE STREET A WEST STREET,  
TREFDRAETH, SIR BENFRO) (GWAHARDD  
CERBYDAU DROS DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, yn Nhrefdraeth, Sir Benfro.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r A487 o'r enw East Street, Bridge Street a West Street sy'n ymestyn o bwynt 185 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r U3447 (o'r enw Feidr Bentick) hyd at bwynt 1.11 o gilometrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

Y prif llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain yw mynd ar yr A487 tua'r gorllewin i Abergwaun, yr A40 tua'r de i Hwlfordd, yr A40 tua'r dwyrain i Gylchfan Penblewin, Arberth a'r A478 tua'r gogledd tuag at Aberteifi i ailymuno â'r A487: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin. Bydd llwybr arall byrrach ar gael ar gyfer traffig lleol.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro mewn grym o 07:00 o'r gloch hyd ganol nos ar 19 Mai 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiad a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros dro/ 2019).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A487 TRUNK ROAD (EAST STREET,  
BRIDGE STREET & WEST STREET,  
NEWPORT, PEMBROKESHIRE)  
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES)  
ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A487 trunk road at Newport, Pembrokeshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the length of the A487 known as East Street, Bridge Street and West Street that extends from a point 185 metres east of the centre-point of its junction with the U3447 (known as Feidr Bentick) to a point 1.11 kilometres west of that junction.

The main alternative route for eastbound traffic is via the westbound A487 to Fishguard, southbound A40 to Haverfordwest, eastbound A40 to Penblewin Roundabout, Narberth and northbound A478 towards Cardigan to re-join the A487: vice versa for westbound traffic. A shorter alternative route will be available for local traffic.

It is expected that the temporary prohibition will be in force from 07:00 hours until midnight on 19 May 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate on the date specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed in advance of any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2019).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government